# CYNGOR

## COFNODION Y CYFARFOD ARBENNIG A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH AR DDYDD IAU 21 CHWEFROR 2019 AM 5.00PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd M. Adams – Maer
Y Cynghorydd J. Simmonds – Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

Mrs E. Aldworth, C. Andrews, A. Angel, C. Bezzina, L. Binding, S. Cook, D. Cushing, C. Cuss, W. David, M. Davies, D.T. Davies, N. Dix, K. Etheridge, A. Farina-Childs, Mrs C. Forehead, A. Gair, Ms J. Gale, N. George, C. Gordon, R.W. Gough, D.T. Hardacre, D. Harse, D. Havard, A. Higgs, A. Hussey, M. James, G. Johnston, Mrs B. Jones, G. Kirby, Mrs A. Leonard, Ms P. Leonard, C.P. Mann, Mrs P. Marsden, B. Miles, S. Morgan, Mrs G. Oliver, Mrs G. Oliver, T. Parry, Mrs L. Phipps, D.V. Poole, D.W.R. Preece, J. Pritchard, J. Ridgewell, J.E. Roberts, R. Saralis, Mrs M.E. Sargent, J. Scriven, G. Simmonds, J. Simmonds, S. Skivens, Mss E. Stenner, A. Whitcombe, R. Whiting, L G. Whittle, T. Williams, W. Williams, B. Zaplatynski

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau Dros Dro), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol), N. Scammell (Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), L. Donovan (Pennaeth Gwasanaethau Pobl), A. Southcombe (Rheolwr Cyllid), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro) ac E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

**TREFNIADAU FFILMIO GWE-DDARLLEDU A PHLEIDLEISIO**

Atgoffodd y Prif Weithredwr Dros Dro y rheini oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio a byddai'n cael ei ddarparu ar gyfer y cyhoedd yn fyw a'i archifo drwy wefan y Cyngor. Dywedodd y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy'r system bleidleisio electronig.

**1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau dros absenoldeb gan y Cynghorwyr P.J. Bevan, A. Collis, K. Dawson, C. Elsbury, M. Evans, Ms E. Forehead, J.E. Fussell, L. Harding, V. James, L. Jeremiah, S. Kent, B. Owen, Mrs D. Price, J. Taylor, C. Thomas

**2. DATGANIADAU O FUDDIANT**

Datganodd y Cyng. J. Bevan fuddiant personol a rhagfarnol yn Agenda Eitem Rhif 3. Mae manylion wedi eu cofnodi gyda'r eitem berthnasol.

## ADRODDIADAU A GYFEIRIWYD O'R CABINET

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol a gyfeiriwyd o'r Cabinet.

## 3. CYNIGION CYLLID 2019/20 A CHYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2019/20 I 2023/24.

Datganodd y Cyng. J. Bevan fuddiant personol a rhagfarnol gan fod ei Ferch yn gweithio i sefydliad Barnardo's ac mae eu contract cyllido yn ffurfio rhan o'r cynigion cyllideb. Yn dilyn cyngor gan y Swyddog Monitro ac wrth nodi y byddai'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Lles yn gwneud cyhoeddiad mewn perthynas â'r contract, gadawodd y Cynghorydd Bevan y Siambr pan drafodwyd y mater hwnnw ond roedd yn bresennol ar gyfer trafodaethau a phleidlais ehangach y gyllideb.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 13 Chwefror 2019. Rhoddodd y Swyddog Adran 151 grynodeb o broses y gyllideb a manylodd ar bwyntiau allweddol Setliad Ariannol Dros Dro a Therfynol Llywodraeth Cymru (LlC) 2019/20. Cyfeiriwyd yr aelodau at Dabl 1 a oedd yn dangos y sefyllfa arian parod wedi'i haddasu ar gyfer Caerffili a oedd yn darparu cynnydd ariannol go iawn o £549 mil.

Nodwyd bod y cynigion terfynol gerbron yr Aelodau yn cyflwyno cyllideb gytbwys yn seiliedig ar gynnydd o 6.9% yn Nhreth y Cyngor. Croesawodd y Swyddog Adran 151 y dull gochelgar a gymerwyd mewn perthynas ag arbedion ymlaen llaw. Amlinellwyd amrywiol bwysau costau ac eglurwyd na chafwyd unrhyw arwydd gan Lywodraeth Cymru hyd yn hyn o ran cyfraniadau pensiwn cyflogwr i Athrawon a'r Gwasanaeth Tân. Oherwydd yr ansicrwydd parhaus hwn, nid oedd y gyllideb hon yn cymryd i ystyriaeth unrhyw gyllid posibl. Pe bai unrhyw arian untro ar gael yn ddiweddarach, bydd adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor er mwyn i'r Aelodau benderfynu ar ei ddyraniad.

Eglurwyd sefyllfa balansau'r Gronfa Gyffredinol a chyfeiriwyd yr Aelodau at Atodiad 4 yr adroddiad. Oherwydd y rhagolygon ariannol sy'n gwaethygu, dywedodd y Swyddog Adran 151 y dylid cadw balansau'r Gronfa Gyffredinol ar lefel uwch na'r arfer ar £11.6 miliwn. Nodwyd y gellid ailystyried hyn unwaith y cyhoeddir y setliad dros dro ar gyfer 2020/21 ym mis Hydref.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddogion hynny a oedd wedi gweithio mor ddiwyd ar baratoi cyllideb gytbwys. Yna cyfeiriodd yr Aelodau at y broses ymgynghori a diolchodd yr Aelodau i bawb a oedd wedi rhoi o'u hamser i gymryd rhan. Nodwyd, o ganlyniad i Setliad Ariannol Terfynol 2019/20 Llywodraeth Leol a'r adborth o'r ymgynghoriad, fod nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r gyllideb ddrafft ac amlygwyd y rhain yn Nhabl 6 yr adroddiad. Roedd y rhain yn cynnwys gohirio cau 2 safle Amwynder Dinesig wrth aros am ganlyniad yr adolygiad gwastraff ehangach, adfer Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol yn rhannol, gohirio taliadau am driniaethau llygod mawr, gohirio unrhyw ostyngiad yn y Gwasanaeth 'Meals Direct' nes y canlyniad adolygiad arlwyo ehangach ac arian cyfatebol ar gyfer Cynlluniau Cymunedol yn Llawr Sglefrio Bargod a Splash Pad Senghenydd. Mynegwyd gofid ynghylch yr angen i osod cynnydd o 6.95% yn nhreth y Cyngor ond roedd angen gwneud hyn er mwyn diogelu darpariaeth gwasanaethau rheng flaen. Er gwaethaf y caledi parhaus, roedd y gyllideb hefyd yn cynnwys pethau cadarnhaol ar gyfer y rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif, y rhaglen Gyfalaf a phrosiectau Adfywio.

Ar y pwynt hwn yn y ddadl gadawodd y Cynghorydd J. Bevan y Siambr. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Lles fod arian grant y Swyddfa Gartref wedi'i sicrhau

gan Barnardo's a fyddai'n gwrthbwyso'r gostyngiad mewn cyllid ac yn sicrhau parhad y contract am 12 mis. O ganlyniad, fyddai fawr ddim effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth ar gyfer 2019/20. Yna dychwelodd y Cynghorydd J. Bevan i'r Siambr.

Mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch y cynnydd yn Nhreth y Cyngor ac effaith toriadau pellach. Cyfeiriwyd at y ffaith bod y cynnydd hwn yn uwch nag awdurdodau cyfagos, er bod yr arbedion gohiriedig yn cael eu croesawu, fel y buddsoddiadau mewn ysgolion ac adfywio, ymddengys nad oedd llawer o fodelau cyflenwi amgen o fewn y cynigion. Gofynnodd yr Aelodau i ystyriaeth fwy difrifol gael ei rhoi i gyfleoedd am drosglwyddo asedau a thynnodd yr Aelodau sylw at yr effaith fawr y byddai tynnu hyd yn oed symiau bach o arian yn ei chael ar gymunedau lleol.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch Mentrau Cyllid Preifat (MCP) ynghylch lefel y taliadau blynyddol. Amlinellodd y Swyddog Adran 151 weithrediad MCPau yn fyr a chadarnhaodd y gellid dosbarthu rhagor o wybodaeth i Aelodau yn dilyn y cyfarfod. Hysbyswyd yr Aelodau fod adolygiad MCP ar y gweill ar hyn o bryd ac y byddai'n destun adroddiad pellach i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau yn yr haf.

Pwysleisiodd Aelod, o ystyried caledi parhaus a thoriadau pellach i ddod, yr angen i ddiogelu darparwyr a gwirfoddolwyr y Trydydd Sector.

Yna cyfeiriwyd at y toriadau a wnaed i ddarpariaeth toiledau cyhoeddus, y strategaeth toiledau bresennol a'r effaith yr oedd eu gwaredu yn ei chael ar nifer yr ymwelwyr â chanol y dref. Nodwyd bod y cyfnod ymgynghori ar gyfer Strategaeth Toiledau CBSC yn parhau ar agor ac atgoffwyd yr Aelodau fod y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddarparu strategaeth ond nid oedd yn gofyn iddynt ddarparu cyfleusterau cyhoeddus.

Yna gofynnwyd am eglurhad ynghylch y gostyngiad yn y gyllideb Mentrau Gwella Ysgolion a'r meini prawf a fyddai'n cael eu defnyddio ar gyfer cael gafael ar gronfeydd brys pe bai angen. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei anfon ymlaen at yr Aelod yn dilyn y cyfarfod.

Yna cyfeiriodd yr Aelodau at y defnydd o Gronfeydd Wrth Gefn, ac fe roddodd y Swyddog Adran 151 eglurhad am y rhesymau dros ddal cronfeydd o'r fath a sut y cawsant eu harchwilio a'u craffu. Amlinellodd y Swyddog hefyd sut y gellid defnyddio Cronfeydd Cyfalaf a Chyffredinol a'r cyfyngiadau y maent yn gweithredu oddi tanynt. Derbyniwyd bod gwaith pellach i'w wneud gyda Chynghorwyr ac Aelodau o'r Cyhoedd er mwyn cynyddu dealltwriaeth o'r Cronfeydd Wrth Gefn.

I gloi, pwysleisiwyd pwysigrwydd cyflwyno cyllideb gytbwys a sut y byddai'r gyllideb a gyflwynir yn gofalu am y rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau wrth i gyni barhau. Cyfeiriwyd at yr ansicrwydd ynghylch setliadau pensiwn y gwasanaeth tân ac athrawon a phwysau twf mewn gofal cymdeithasol a'r galwadau cynyddol ar awdurdodau lleol a Chynghorwyr. Amlinellwyd yr angen i fod yn sefydliad arloesol a rhagweithiol yn wyneb heriau yn y dyfodol fel tai, addysg, anghenion iechyd cymhleth, datblygiadau digidol a chynhesu byd-eang. Byddai angen darparu gwasanaethau yn wahanol gyda modelau gweithredol newydd yn cael eu datblygu er mwyn ymateb i ofynion sy'n newid yn barhaus. Cyfeiriwyd at fenter Caerffili 2022 a fyddai'n sbarduno effeithlonrwydd busnes a chyfle masnachol gyda thrigolion a staff wrth ei gwraidd, gan weithio'n wirioneddol gyda'i gilydd er lles pawb.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 15.4 (1) gwnaed cais am bleidlais wedi'i chofnodi, drwy'r system bleidleisio electronig.

O blaid y Cynnig:

Y Cynghorwyr B.A. Jones, C. Forehead, D.V. Poole, A.G. Higgs, Mrs E. Aldworth, D.T. Davies, D. Hardacre, W. David, D. Preece, G.D. Oliver, J. Bevan, E. Stenner, N. George, M. Adams, C. Gordon, G. Kirby, R. Saralis, S. Morgan, G. Johnston, J. Gale, S. Havard. J. Pritchard, C.J. Cuss, Mrs P. Leonard, T. Williams, J. Simmonds, L. Phipps, D. Harse, P. Marsden, Mrs A. Leonard, Mrs C. Andrews, B. Zaplatynski, Mrs C. Bezzina, Mrs A. Gair, W. Williams, A. Whitcombe, A. Hussey, R. Whiting, S. Cook, J. Ridgewell a Mrs B. Miles (41).

Yn Erbyn y Cynnig:
Y Cynghorwyr N. Dix, C.P. Mann, L. Binding, S. Skivens, Mrs M. Sargent, L. Whittle, A.P. Angel, R.W. Gough, S. Kent, J. Roberts, J. Scriven, Mrs T. Parry, Mrs D. Cushing, K. Etheridge, G. Simmonds, A. Farina-Childs a M. Davies (17).

PENDERFYNWYD:-

(i) cymeradwyo'r cynnig o ran trosglwyddo/pasbortio grantiau i mewn i'r Setliad Ariannol a phasio'r cyllid ar gyfer cyfrifoldebau newydd yn uniongyrchol i'r gwasanaethau hynny y maent yn ymwneud â hwy (gweler paragraff 4.2.10);

(ii) cymeradwyo'r arbedion arfaethedig ar gyfer 2019/20, sef cyfanswm o £13.921 miliwn fel y'i nodir ym mharagraffau 4.3.1 a 4.3.2 ac Atodiadau 2 a 3 i'r adroddiad hwn;

(iii) cymeradwyo cynigion y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2019/20, sef £337.745 miliwn fel y'i nodir yn yr adroddiad hwn, ac fel y'i crynhoir yn Atodiad 1;

(iv) cymeradwyo'r cynnig i ddyrannu £5 miliwn o arian cyfatebol i Ysgolion yr 21ain Ganrif (gweler paragraff 4.6.3);

(v) cymeradwyo'r cynnig i ddyrannu £1.2 miliwn i'r Bwrdd Prosiect Adfywio (gweler paragraff 4.6.3);

(vi) cymeradwyo'r cynnig i ddyrannu'r £475 mil o arbedion ymlaen llaw i Raglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif (gweler paragraff 4.3.5);

(vii) cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer y cyfnod 2019/20 i 2021/22 (gweler Atodiad 5);

(viii) nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi ei ddiweddaru, y manylir arno yn Atodiad 6 i'r adroddiad hwn, a'r gofyniad arbedion dangosol o £44 miliwn ar gyfer y 4 blwyddyn ariannol ganlynol (2020/21 i 2023/2024);

(ix) cymeradwyo'r cynnig i gynyddu Treth y Cyngor 6.95% ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20 i sicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei chyflawni (Band D Treth y Cyngor yn cael ei osod ar £1131.21).

**ADRODDIADAU'R SWYDDOGION**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

**4. PENDERFYNIAD GOSOD TRETH Y CYNGOR 2019/20**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn rhoi manylion am Dreth Gyngor yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20, cyn pasio'r penderfyniadau statudol angenrheidiol.

Cafodd ei gynnig a'i eilio bod yr argymhellion a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog yn cael eu cymeradwyo a thrwy'r system bleidleisio electronig, a thrwy nodi bod 10 yn erbyn a 5 wedi ymatal, cytunwyd arni gan y mwyafrif oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD:-

**1.** Nodi, yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr 2018, fod y Cabinet wedi cyfrifo'r symiau canlynol ar gyfer y flwyddyn 2019/2020 yn unol â rheoliadau a wnaed o dan Adran 33 (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a'r pwerau a roddir o dan Reoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd).

a) **60,183.96** Sef y swm a gyfrifwyd gan y Cabinet, yn unol â Rheoliad (3) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) 1995 (fel y'u diwygiwyd), fel ei sylfaen treth gyngor ar gyfer y flwyddyn.

b) **Rhan o Ardal y Cyngor:**

| | Sylfaen Drethu<br>Nifer o Fandiau D<br>Eiddo Cyfwerth |
|---|---|
| Cwm Aber | 2,011.26 |
| Argoed | 859.55 |
| Bargod | 3,630.06 |
| Bedwas, Tretomos a Machen | 3,768.49 |
| Coed Duon | 2,947.24 |
| Caerffili | 6,261.53 |
| Cwm Darran | 702.98 |
| Draethen,Tŷ'n-y-coed-cae a Rhydri | 617.09 |
| Gelligaer | 6,271.29 |

| | Sylfaen Drethu<br>Nifer o Fandiau D<br>Eiddo Cyfwerth |
|---|---|
| Llanbradach a Phwll-y-pant | 1,480.37 |
| Maes-y-cwmwr | 797.55 |
| Nelson | 1,601.40 |
| Tredegar Newydd | 1,337.70 |
| Pen-yr-heol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn | 4,435.13 |
| Rhymni | 2,542.19 |
| Dwyrain Rhisga | 2,040.70 |
| Gorllewin Rhisga | 1,785.37 |
| Y Fan | 1,641.44 |
| Gweddill | 15,452.62 |
| Cyfanswm | 60,183.96 |

sef y symiau a gyfrifwyd gan y Cabinet, yn unol â rheoliad 6 o'r Rheoliadau, fel symiau ei

sylfaen treth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal y mae un neu fwy o eitemau arbennig yn ymwneud â hwy.

**2.** Bod y symiau canlynol bellach yn cael eu cyfrifo gan y Cyngor am y flwyddyn 2019/2020 yn unol ag Adrannau 32 i 36 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chyllid 1992: -

***a)*** **£338,523,157** sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32(2)(a) i (d) o'r Ddeddf;

***b)*** ***£1,050,000*** sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32(3) (a) i (c) o'r Ddeddf;

***c)*** ***£337,473,157*** sef y swm y mae'r cyfanswm yn (2)(a) uchod yn fwy na'r cyfanswm yn (2)(b) uchod, wedi'i gyfrifo gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) o'r Ddeddf, fel ei ofyniad cyllideb ar gyfer y flwyddyn;

***ch)*** ***£268,614,269*** sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn daladwy am y flwyddyn i'w gronfa gyngor mewn perthynas â threthi annomestig a ail-ddosbarthwyd, grant cynnal refeniw, cynllun gostyngiadau treth y cyngor neu grant ychwanegol yr awdurdod;

***d)*** ***£1,144.14*** sef y swm yn (2)(c) uchod wedi tynnu'r swm yn (2)(ch) uchod, oll yn cael eu rhannu â'r swm yn (1)(a) uchod, wedi'i gyfrifo gan y Cyngor, yn unol ag Adran 33(1) o'r Ddeddf, fel swm sylfaenol ei dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn;

***dd)*** ***£778,189*** sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn adran 34(1) o'r Ddeddf;

***e)*** ***£1,131.21*** sef y swm yn (2)(d) uchod wedi tynnu'r canlyniad a roddir drwy rannu'r swm yn (2)(dd) uchod â'r swm yn (1)(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) o'r Ddeddf, fel swm sylfaenol ei dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal nad oes unrhyw eitem arbennig yn berthnasol iddynt;

***f)*** **Treth y Cyngor sy'n Gymwys i Rannau o Ardaloedd y Cyngor**

| **Rhan o Ardal y Cyngor** | **Praesept Lleol** | **Ardoll Bwdeistref Sirol** | **Cyfanswm Tâl Band D y Bwrdeistref Sirol a'r Cyngor Cymunedol** |
|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** |
| Cwm Aber | 18.89 | 1,131.21 | 1,150.10 |
| Argoed | 15.00 | 1,131.21 | 1,146.21 |
| Bargod | 20.04 | 1,131.21 | 1,151.25 |
| Bedwas, Tretomos a Machen | 24.12 | 1,131.21 | 1,155.33 |
| Coed Duon | 20.00 | 1,131.21 | 1,151.21 |
| Caerffili | 15.50 | 1,131.21 | 1,146.71 |
| Cwm Darran | 17.75 | 1,131.21 | 1,148.96 |
| Draethen,Tŷ'n-y-coed-cae a Rhydri | 24.31 | 1,131.21 | 1,155.52 |
| Gelligaer | 15.52 | 1,131.21 | 1,146.73 |
| Llanbradach a Phwll-y-pant | 21.89 | 1,131.21 | 1,153.10 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Maes-y-cwmwr | 22.95 | 1,131.21 | 1,154.16 |
| Nelson | 17.76 | 1,131.21 | 1,148.97 |
| Tredegar Newydd | 12.65 | 1,131.21 | 1,143.86 |
| Pen-yr-heol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn | 13.81 | 1,131.21 | 1,145.02 |
| Rhymnni | 13.77 | 1,131.21 | 1,144.98 |
| Dwyrain Rhisga | 12.00 | 1,131.21 | 1,143.21 |
| Gorllewin Rhisga | 23.00 | 1,131.21 | 1,154.21 |
| Y Fan | 15.23 | 1,131.21 | 1,146.44 |
| Gweddill | 0.00 | 1,131.21 | 1,131.21 |

*sef y symiau a roddir drwy ychwanegu at y swm yn (2)(e) uchod, symiau'r eitem arbennig neu'r eitemau sy'n ymwneud ag anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor a grybwyllir uchod wedi'u rhannu ym mhob achos â'r swm yn (1)(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(3) o'r Ddeddf, fel symiau sylfaenol, ei dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal y mae un neu fwy o eitemau arbennig yn ymwneud â hwy;*

***ff)***

| **Bandiau Prisio** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol** | 754.14 | 879.83 | 1,005.52 | 1,131.21 | 1,382.59 | 1,633.97 | 1,885.35 | 2,262.42 | 2,639.49 |
| **Cynghorau Cymunedol** | | | | | | | | | |
| Cwm Aber | 12.59 | 14.69 | 16.79 | 18.89 | 23.09 | 27.29 | 31.48 | 37.78 | 44.08 |
| Argoed | 10.00 | 11.67 | 13.33 | 15.00 | 18.33 | 21.67 | 25.00 | 30.00 | 35.00 |
| Bargod | 13.36 | 15.59 | 17.81 | 20.04 | 24.49 | 28.95 | 33.40 | 40.08 | 46.76 |
| Bedwas, Tretomos a Machen | 16.08 | 18.76 | 21.44 | 24.12 | 29.48 | 34.84 | 40.20 | 48.24 | 56.28 |
| Coed Duon | 13.33 | 15.56 | 17.78 | 20.00 | 24.44 | 28.89 | 33.33 | 40.00 | 46.67 |
| Caerffili | 10.33 | 12.06 | 13.78 | 15.50 | 18.94 | 22.39 | 25.83 | 31.00 | 36.17 |
| Cwm Darran | 11.83 | 13.81 | 15.78 | 17.75 | 21.69 | 25.64 | 29.58 | 35.50 | 41.42 |
| Draethen,Tŷ'n-y-coed-cae a Rhydri | 16.21 | 18.91 | 21.61 | 24.31 | 29.71 | 35.11 | 40.52 | 48.62 | 56.72 |
| Gelligaer | 10.35 | 12.07 | 13.80 | 15.52 | 18.97 | 22.42 | 25.87 | 31.04 | 36.21 |
| Llanbradach a Phwll-y-pant | 14.59 | 17.03 | 19.46 | 21.89 | 26.75 | 31.62 | 36.48 | 43.78 | 51.08 |
| Maes-y-cwmwr | 15.30 | 17.85 | 20.40 | 22.95 | 28.05 | 33.15 | 38.25 | 45.90 | 53.55 |
| Nelson | 11.84 | 13.81 | 15.79 | 17.76 | 21.71 | 25.65 | 29.60 | 35.52 | 41.44 |
| Tredegar Newydd | 8.43 | 9.84 | 11.24 | 12.65 | 15.46 | 18.27 | 21.08 | 25.30 | 29.52 |
| Pen-yr-heol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn | 9.21 | 10.74 | 12.28 | 13.81 | 16.88 | 19.95 | 23.02 | 27.62 | 32.22 |
| Rhymni | 9.18 | 10.71 | 12.24 | 13.77 | 16.83 | 19.89 | 22.95 | 27.54 | 32.13 |
| Dwyrain Rhisga | 8.00 | 9.33 | 10.67 | 12.00 | 14.67 | 17.33 | 20.00 | 24.00 | 28.00 |
| Gorllewin Rhisga | 15.33 | 17.89 | 20.44 | 23.00 | 28.11 | 33.22 | 38.33 | 46.00 | 53.67 |
| Y Fan | 10.15 | 11.85 | 13.54 | 15.23 | 18.61 | 22.00 | 25.38 | 30.46 | 35.54 |
| Gweddill | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |

| **Bandiau Prisio** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Cyfansymiadau ar gyfer Ardaloedd Cynghorau Cymunedol** | | | | | | | | | |
| Cwm Aber | 766.73 | 894.52 | 1,022.31 | 1,150.10 | 1,405.68 | 1,661.26 | 1,916.83 | 2,300.20 | 2,683.57 |
| Argoed | 764.14 | 891.50 | 1,018.85 | 1,146.21 | 1,400.92 | 1,655.64 | 1,910.35 | 2,292.42 | 2,674.49 |
| Bargod | 767.50 | 895.42 | 1,023.33 | 1,151.25 | 1,407.08 | 1,662.92 | 1,918.75 | 2,302.50 | 2,686.25 |
| Bedwas, Tretomos a Machen | 770.22 | 898.59 | 1,026.96 | 1,155.33 | 1,412.07 | 1,668.81 | 1,925.55 | 2,310.66 | 2,695.77 |
| Coed Duon | 767.47 | 895.39 | 1,023.30 | 1,151.21 | 1,407.03 | 1,662.86 | 1,918.68 | 2,302.42 | 2,686.16 |
| Caerffili | 764.47 | 891.89 | 1,019.30 | 1,146.71 | 1,401.53 | 1,656.36 | 1,911.18 | 2,293.42 | 2,675.66 |
| Cwm Darran | 765.97 | 893.64 | 1,021.30 | 1,148.96 | 1,404.28 | 1,659.61 | 1,914.93 | 2,297.92 | 2,680.91 |
| Draethen,Tŷ'n-y-coed-cae a Rhydri | 770.35 | 898.74 | 1,027.13 | 1,155.52 | 1,412.30 | 1,669.08 | 1,925.87 | 2,311.04 | 2,696.21 |
| Gelligaer | 764.49 | 891.90 | 1,019.32 | 1,146.73 | 1,401.56 | 1,656.39 | 1,911.22 | 2,293.46 | 2,675.70 |
| Llanbradach a Phwll-y-pant | 768.73 | 896.86 | 1,024.98 | 1,153.10 | 1,409.34 | 1,665.59 | 1,921.83 | 2,306.20 | 2,690.57 |
| Maes-y-cwmwr | 769.44 | 897.68 | 1,025.92 | 1,154.16 | 1,410.64 | 1,667.12 | 1,923.60 | 2,308.32 | 2,693.04 |
| Nelson | 765.98 | 893.64 | 1,021.31 | 1,148.97 | 1,404.30 | 1,659.62 | 1,914.95 | 2,297.94 | 2,680.93 |
| Tredegar Newydd | 762.57 | 889.67 | 1,016.76 | 1,143.86 | 1,398.05 | 1,652.24 | 1,906.43 | 2,287.72 | 2,669.01 |
| Pen-yr-heol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn | 763.35 | 890.57 | 1,017.80 | 1,145.02 | 1,399.47 | 1,653.92 | 1,908.37 | 2,290.04 | 2,671.71 |
| Rhymni | 763.32 | 890.54 | 1,017.76 | 1,144.98 | 1,399.42 | 1,653.86 | 1,908.30 | 2,289.96 | 2,671.62 |
| Dwyrain Rhisga | 762.14 | 889.16 | 1,016.19 | 1,143.21 | 1,397.26 | 1,651.30 | 1,905.35 | 2,286.42 | 2,667.49 |
| Gorllewin Rhisga | 769.47 | 897.72 | 1,025.96 | 1,154.21 | 1,410.70 | 1,667.19 | 1,923.68 | 2,308.42 | 2,693.16 |
| Y Fan | 764.29 | 891.68 | 1,019.06 | 1,146.44 | 1,401.20 | 1,655.97 | 1,910.73 | 2,292.88 | 2,675.03 |
| Gweddill | 754.14 | 879.83 | 1,005.52 | 1,131.21 | 1,382.59 | 1,633.97 | 1,885.35 | 2,262.42 | 2,639.49 |

sef y symiau a roddir drwy luosi'r symiau yn (2)(e) a (2)(f) uchod â'r nifer sydd, yn y gyfran a nodir yn Adran 5(1) o'r Ddeddf, yn gymwys i anheddau a restrir mewn band prisio penodol wedi'i rannu â'r nifer sy'n gymwys yn y gyfran honno i anheddau a restrir mewn band prisio D penodol, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) o'r Ddeddf, fel y symiau i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chategorïau o anheddau a restrir mewn gwahanol fandiau prisio.

**3.** Nodi bod y prif awdurdod praeseptio, ar gyfer y flwyddyn 2019/2020, wedi datgan y symiau canlynol mewn praeseptau a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir isod: -

| **Bandiau Prisio** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Awdurdod Praeseptio** | | | | | | | | | |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent | 170.35 | 198.75 | 227.14 | 255.53 | 312.31 | 369.10 | 425.88 | 511.06 | 596.24 |

**4.** Ar ôl cyfrifo'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn (2)(ff) a (3) uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn yn gosod y symiau canlynol o Dreth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2019/2020 ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir isod: -

| **Bandiau Prisio** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Cwm Aber | 937.08 | 1,093.27 | 1,249.45 | 1,405.63 | 1,717.99 | 2,030.36 | 2,342.71 | 2,811.26 | 3,279.81 |
| Argoed | 934.49 | 1,090.25 | 1,245.99 | 1,401.74 | 1,713.23 | 2,024.74 | 2,336.23 | 2,803.48 | 3,270.73 |
| Bargod | 937.85 | 1,094.17 | 1,250.47 | 1,406.78 | 1,719.39 | 2,032.02 | 2,344.63 | 2,813.56 | 3,282.49 |
| Bedwas, Tretomos a Machen | 940.57 | 1,097.34 | 1,254.10 | 1,410.86 | 1,724.38 | 2,037.91 | 2,351.43 | 2,821.72 | 3,292.01 |
| Coed Duon | 937.82 | 1,094.14 | 1,250.44 | 1,406.74 | 1,719.34 | 2,031.96 | 2,344.56 | 2,813.48 | 3,282.40 |
| Caerffili | 934.82 | 1,090.64 | 1,246.44 | 1,402.24 | 1,713.84 | 2,025.46 | 2,337.06 | 2,804.48 | 3,271.90 |
| Cwm Darran | 936.32 | 1,092.39 | 1,248.44 | 1,404.49 | 1,716.59 | 2,028.71 | 2,340.81 | 2,808.98 | 3,277.15 |
| Draethen,Tŷ'n-y-coed-cae a Rhydri | 940.70 | 1,097.49 | 1,254.27 | 1,411.05 | 1,724.61 | 2,038.18 | 2,351.75 | 2,822.10 | 3,292.45 |
| Gelligaer | 934.84 | 1,090.65 | 1,246.46 | 1,402.26 | 1,713.87 | 2,025.49 | 2,337.10 | 2,804.52 | 3,271.94 |
| Llanbradach a Phwll-y-pant | 939.08 | 1,095.61 | 1,252.12 | 1,408.63 | 1,721.65 | 2,034.69 | 2,347.71 | 2,817.26 | 3,286.81 |
| Maes-y-cwmwr | 939.79 | 1,096.43 | 1,253.06 | 1,409.69 | 1,722.95 | 2,036.22 | 2,349.48 | 2,819.38 | 3,289.28 |
| Nelson | 936.33 | 1,092.39 | 1,248.45 | 1,404.50 | 1,716.61 | 2,028.72 | 2,340.83 | 2,809.00 | 3,277.17 |
| Tredegar Newydd | 932.92 | 1,088.42 | 1,243.90 | 1,399.39 | 1,710.36 | 2,021.34 | 2,332.31 | 2,798.78 | 3,265.25 |
| Pen-yr-heol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn | 933.70 | 1,089.32 | 1,244.94 | 1,400.55 | 1,711.78 | 2,023.02 | 2,334.25 | 2,801.10 | 3,267.95 |
| Rhymni | 933.67 | 1,089.29 | 1,244.90 | 1,400.51 | 1,711.73 | 2,022.96 | 2,334.18 | 2,801.02 | 3,267.86 |
| Dwyrain Rhisga | 932.49 | 1,087.91 | 1,243.33 | 1,398.74 | 1,709.57 | 2,020.40 | 2,331.23 | 2,797.48 | 3,263.73 |
| Gorllewin Rhisga | 939.82 | 1,096.47 | 1,253.10 | 1,409.74 | 1,723.01 | 2,036.29 | 2,349.56 | 2,819.48 | 3,289.40 |
| Y Fan | 934.64 | 1,090.43 | 1,246.20 | 1,401.97 | 1,713.51 | 2,025.07 | 2,336.61 | 2,803.94 | 3,271.27 |
| Gweddill | 924.49 | 1,078.58 | 1,232.66 | 1,386.74 | 1,694.90 | 2,003.07 | 2,311.23 | 2,773.48 | 3,235.73 |

## 5. STRATEGAETH FLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS, DANGOSYDDION MATERION ARIANNOL CYLLID CYFALAF A PHOLISI DARPARIAETH ISAFSWM AR GYFER 2019/20

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn manylu ar Strategaeth Flynyddol y Cyngor ar gyfer Rheoli'r Trysorlys, Dangosyddion Materion Ariannol Cyllid Cyfalaf a Pholisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2019/20. Nodwyd bod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 15 Ionawr 2019.

Yn unol â gofynion deddfwriaethol, Canllawiau a Chodau Ymarfer Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn flynyddol, sy'n nodi ei strategaethau benthyca a buddsoddi ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo a chyhoeddi nifer o ddangosyddion sy'n berthnasol i Gyllid Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys, a pharatoi Datganiad Polisi Darpariaeth Refeniw Lleiafsymiol Blynyddol. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi nifer o newidiadau i ddull benthyca a buddsoddi'r Cyngor wrth symud ymlaen, gan gynnwys symud i ffwrdd o fuddsoddiad mewn Swyddfeydd Rheoli Dyledion oherwydd y gyfradd llog isel.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddogion am yr holl waith caled sy'n gysylltiedig â pharatoi'r adroddiad a gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â chyfleoedd ar gyfer enillion cynyddol o fuddsoddiadau. Dywedodd y Swyddog fod y Cyngor yn y chwartel uchaf ar enillion buddsoddi a chadarnhaodd fod cyfleoedd ar gael i gynyddu enillion wrth symud ymlaen, fodd bynnag roedd enillion cynyddol hefyd yn golygu cynnydd mewn risg, ac y byddai angen i Aelodau drafod lefel y risg yn erbyn gwobr sydd i'w gael. I'r perwyl hwn, anogodd y Swyddog yr Aelodau i fynychu'r seminar a drefnwyd gydag Arlingclose Limited, Ymgynghorydd Rheoli Trysorlys y Cyngor.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn, cafodd ei gytuno a'i eilio bod yr argymhellion a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog yn cael eu cymeradwyo a thrwy'r system bleidleisio electronig, a thrwy nodi bod 3 wedi ymatal, cytunwyd arni gan y mwyafrif oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo:-

(i) y Strategaeth Flynyddol ar gyfer Rheoli'r Trysorlys 2019/20;

(ii) adolygu'r strategaeth bob chwarter o fewn adroddiadau monitro'r Rheoli'r Trysorlys a gyflwynir i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau, a dylid cyfeirio unrhyw newidiadau a argymhellwyd i'r Cabinet, yn y lle cyntaf, ac i'r Cyngor am benderfyniad. Bydd yr Awdurdod hefyd yn paratoi adroddiad hanner blwyddyn ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys;

(iii) gosod Dangosyddion Materion Ariannol ar gyfer Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2019/20 i 2021/22 fel yr amlinellwyd yn Atodiad 5 yr adroddiad;

(iv) gosod Dangosyddion Materion Ariannol ar gyfer Cyllid Cyfalaf ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2019/20 i 2021/22 fel yr amlinellwyd yn Atodiadau 6 a 7 yr adroddiad;

(v) gosod y polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2019/20 yn unol ag Atodiad 8 yr adroddiad;

(vi) parhad strategaeth fuddsoddi 2018/19 a'r benthyca i sefydliadau ariannol a Chorfforaethau yn unol â'r meini prawf statws credyd lleiafsymiol a ddatgelwyd o fewn yr adroddiad;

(vii) mae'r Awdurdod yn benthyca £27.4 miliwn (er ei fod yn gohirio £14.29 miliwn i 2020/21) i'r Gronfa Gyffredinol gefnogi rhaglen gyfalaf 2019/20 a £44.2 miliwn ar gyfer rhaglen SATC y Cyfrif Refeniw Tai;

(viii) mae'r Awdurdod yn parhau i fabwysiadu'r raddfa graddio fuddsoddi fel meini prawf statws credyd lleiafsymiol fel ffordd o asesu cymhwysedd credyd gwrthbartïon addas wrth osod buddsoddiadau;

(ix) mae'r Awdurdod yn mabwysiadu'r terfynau hyd ariannol a buddsoddi fel y'u nodir yn Atodiad 3 yr adroddiad.

**6. ADRODDIAD STRATEGAETH GYFALAF 2019/20**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a gyflwynodd yr Adroddiad Strategaeth Gyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 yn unol â'r Cod Materion Ariannol a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Nodwyd bod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau fel eitem wybodaeth.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr adroddiad Strategaeth Gyfalaf yn ofyniad newydd ar gyfer 2019/20 ac amlinellodd yr egwyddorion a'r fframwaith ar y lefel uchel iawn sy'n llywio cynigion buddsoddi cyfalaf yr Awdurdod. Y prif nod yw cyflwyno rhaglen fforddiadwy o raglen gyfalaf sy'n gyson â'r strategaeth ariannol ac sy'n cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau ac amcanion y Cyngor fel y'u nodir yng Nghynllun Corfforaethol yr Awdurdod, ystyried risgiau cysylltiedig, cydnabod cyfyngiadau ariannol dros y tymor hwy a rhoi gwerth am arian.

Cadarnhaodd y Swyddog Adran 151 gan nad oedd yr adroddiad ond yn cyflwyno'r fframwaith nid oedd unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad.

Cwestiynodd Aelod y ffordd orau i Aelodau wneud sylwadau ar eitemau gwybodaeth na chawsant eu hystyried trwy drafodaeth. Nodwyd y broses a chytunwyd y byddai'r Gwasanaethau Democrataidd yn egluro hyn wrth ddosbarthu eitemau gwybodaeth.

Ar ôl ystyried cynnwys yr adroddiad, cafodd ei gynnig a'i eilio bod yr argymhellion a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog yn cael eu cymeradwyo a thrwy'r system bleidleisio electronig, a thrwy nodi bod 1 wedi ymatal, cytunwyd arni gan y mwyafrif oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Adroddiad Strategaeth Cyfalaf blynyddol.

**7. PENODI DIRPRWY SWYDDOG COFRESTRU ETHOLIADOL**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i benodi Dirprwy Swyddog Etholiadol.

Nodwyd mai Prif Swyddog Cofrestru Etholiadol y Cyngor yw'r Prif Weithredwr Dros Dro ac un o gyfrifoldebau allweddol y rôl honno yw cynnal gwrandawiadau mewn perthynas ag unrhyw adolygiadau cofrestru neu wrthwynebiadau a dderbyniwyd i gais gael ei gynnwys ar y Gofrestr o Etholwyr. Mae gan y gwrandawiadau hyn amserlen ddeddfwriaethol ac o'r herwydd efallai y bydd achlysuron pan na fydd y Prif Weithredwr Dros Dro ar gael o bosibl gan beri fod y Cyngor yn torri'r ddeddfwriaeth. Argymhellwyd felly y dylid gwneud penodiad parhaol i swydd y Dirprwy Swyddog Cofrestru Etholiadol er mwyn dileu'r risg honno.

Dywedwyd wrth yr Aelodau, er y byddai gan y Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol hefyd yr awdurdod i ganiatáu a gwrthod ceisiadau i gofrestru, ni fyddai'n gallu gweithredu gan y byddai wedi gwneud y penderfyniad gwreiddiol.

Yn dilyn ystyried cynnwys yr adroddiad, cafodd ei gynnig a'i eilio y dylid cymeradwyo'r argymhellion a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog, a thrwy gyfrwng y system bleidleisio electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD penodi Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol yn Ddirprwy Swyddog Cofrestru Etholiadol.

**8 PWYLLGOR SAFONAU - PENODI AELODAU ANNIBYNNOL**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i benodi Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau ac i ystyried yr argymhelliad ar gyfer penodi dau berson wrth gefn.

Hysbyswyd yr Aelodau bod Panel Penodi wedi'i sefydlu i ystyried yr holl geisiadau a dderbyniwyd. Roedd cyfansoddiad y Panel yn cynnwys Aelod Etholedig, Cynghorydd Cymuned, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ac Uchel Siryf Gwent, a oedd yn gweithredu fel yr Aelod Panel Lleyg.

Cyflawnodd pedwar ymgeisydd y meini prawf a chawsant eu gwahodd i gyfweliad ar 21 Ionawr 2019. Yn dilyn y cyfweliadau, roedd y Panel o'r farn y dylid ystyried un o'r ymgeiswyr i'w penodi ar unwaith a dylid gwahodd dau o'r ymgeiswyr i fod wrth gefn ar gyfer unrhyw swyddi gwag yn y dyfodol. Nodwyd y byddai dwy swydd wag arall ar gyfer aelodau annibynnol yn codi ym mis Hydref eleni, gan fod yr Aelodau presennol wedi gwasanaethu gydag uchafswm o 2 dymor ar y Pwyllgor Safonau.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar y broses recriwtio a dethol o ran addasrwydd ymgeiswyr a gofynnwyd am ystyriaeth i ddarparu ‘portreadau' o apwyntiadau a argymhellir fel y gall y Cyngor fodloni eu hunain am eu haddasrwydd.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol y broses yr oedd y Panel wedi'i dilyn er mwyn gwneud yr argymhelliad gerbron y Cyngor ac os oedd yr Aelodau'n dymuno gweld mwy o gefndir ar gyfer ymgeiswyr yn y dyfodol gellid edrych ar hyn wrth symud ymlaen.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn, cafodd ei gynnig a'i eilio bod yr argymhellion a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog yn cael eu cymeradwyo a thrwy'r system bleidleisio electronig, a thrwy nodi bod 3 wedi ymatal, cytunwyd arni gan y mwyafrif oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD:-

(i) penodi Mr Christopher Finn am gyfnod o 6 mlynedd fel Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau;

(ii) cymeradwyo sefydlu rhestr wrth gefn o Aelodau Annibynnol a phenodi Mr Jonathan Card a Mrs Linda Davies i'r Pwyllgor Safonau am 6 mlynedd pan fydd y ddwy swydd wag arall ar gyfer Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau ar gael ym mis Hydref 2019.

Terfynwyd y cyfarfod am 18:45

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn amodol ar unrhyw newidiadau neu gywiriadau a gytunir arnynt ac a gofnodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 16 Ebrill 2019 ac fe'u llofnodwyd gan y Maer.

________________________________

MAER